# Ffioedd mewn Cysylltiad ag Archiadau am Wasanaethau Cyn Ymgeisio

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2025

## Mae'r ffioedd hyn yn berthnasol i geisiadau a wneir o 1 Rhagfyr 2025 ymlaen.

Dylid talu'r ffi pan gyflwynir y Cais.

### RHAN 1
### Ffioedd taladwy o dan Reoliad 2A

**1.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff 2 o'r Rhan hon, cyfrifir y ffi sy'n daladwy o dan reoliad 2A yn unol â'r tabl a nodir yn Rhan 2 a pharagraffau 3 i 5.

(2) Yn y Rhan hon—

(a) mae cyfeiriad at gategori yn gyfeiriad at gategori o ddatblygiadau Arfaethedig a bennir yn y tabl a nodir yn Rhan 2; ac mae cyfeiriad at gategori â rhif yn gyfeiriad at y categori sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y tabl; a

(b) mae i "cais deiliad tŷ" ("*householder application*") yr un ystyr ag yn erthygl 2(1) o'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu.

**2.** Pan fo archiad am wasanaethau cyn ymgeisio yn ymwneud â chais arfaethedig gan **ddeiliad tŷ**, y ffi sy'n daladwy yw **£33**.

**3.** Pan fo'r ffi, mewn cysylltiad ag unrhyw gategori, i'w chyfrifo drwy gyfeirio at arwynebedd y safle, rhaid cymryd mai'r arwynebedd hwnnw yw arwynebedd y tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef.

**4.** Mewn perthynas â datblygiad Arfaethedig yng nghategori 2 neu 3, rhaid penderfynu'r arwynebedd llawr gros a grëir gan y Datblygiad arfaethedig yn ôl mesuriad allanol yr arwynebedd llawr, pa un a oes bwriad ai peidio i'w ffinio (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) gyda waliau allanol adeilad.

**5.** Pan fo archiad am wasanaethau cyn ymgeisio yn ymwneud â mwy nag un categori, mae ffi sengl yn daladwy, sef yr uchaf o'r ffioedd a gyfrifir yn unol â phob categori o'r fath.

### RHAN 2
### Ffioedd mewn Cysylltiad ag Archiadau am Wasanaethau Cyn Ymgeisio

| *Categori o ddatblygiad arfaethedig* | *Ffi daladwy* |
|---|---|
| **1.** Codi tai annedd | **(a)** Pan fo—<br>(i) nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad arfaethedig yn un i naw, **£332**,<br>(ii) nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad arfaethedig yn 10 i 24, **£797**,<br>(iii) nifer y tai annedd sydd i'w creu gan y datblygiad arfaethedig yn fwy na 24, **£1,328**; |
| | **(b)** pan fo nifer y tai annedd sydd i'w creu yn anhysbys ac—<br>(i) arwynebedd y safle arfaethedig yn ddim mwy na 0.49 hectar, **£332**,<br>(ii) arwynebedd y safle arfaethedig yn 0.5 i 0.99 hectar, **£797**,<br>(iii) arwynebedd y safle arfaethedig yn fwy na 0.99 hectar, **£1,328**. |
| **2.** Codi adeiladau (ac eithrio tai annedd) | **(a)** Pan fo'r—<br>(i) arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn ddim mwy na 999 metr sgwâr, **£332**,<br>(ii) arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn 1,000 i 1,999 metr sgwâr, **£797**,<br>(iii) arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn fwy na 1,999 metr sgwâr, **£1,328**; |

Parhad ar y dudalen nesaf...

| *Categori o ddatblygiad arfaethedig* | *Ffi daladwy* |
|---|---|
| **2.** Codi adeiladau (ac eithrio tai annedd) | **(b)** pan nad yw'r arwynebedd llawr gros sydd i'w greu gan y datblygiad arfaethedig yn hysbys ac—<br>(i) nad yw'r arwynebedd safle arfaethedig yn fwy na 0.49 hectar, **£332**,<br>(ii) arwynebedd arfaethedig y safle yn 0.5 i 0.99 hectar, **£797**,<br>(iii) arwynebedd arfaethedig y safle yn fwy na 0.99 hectar, **£1,328**. |
| **3.** Gwneud newid sylweddol yn y defnydd o adeilad neu dir | **(a)** Pan fo'r archiad am wasanaethau cyn ymgeisio yn ymwneud â chais arfaethedig am ganiatâd i wneud newid sylweddol yn y defnydd o adeilad ac—<br>(i) nad yw arwynebedd llawr gros y datblygiad arfaethedig yn fwy na 999 metr sgwâr, **£332**,<br>(ii) pan fo arwynebedd llawr gros y datblygiad arfaethedig yn 1,000 i 1,999 metr sgwâr, **£797**,<br>(iii) pan fo arwynebedd llawr gros y datblygiad arfaethedig yn fwy na 1,999 metr sgwâr, **£1,328**; |
| | **(b)** Pan fo'r archiad am wasanaethau cyn ymgeisio yn ymwneud â chais arfaethedig am ganiatâd i wneud newid sylweddol yn y defnydd o dir ac—<br>(i) nad yw arwynebedd y safle arfaethedig yn fwy na 0.49 hectar, **£332**,<br>(ii) arwynebedd y safle yn 0.5 i 0.99 hectar, **£797**,<br>(iii) arwynebedd y safle yn fwy na 0.99 hectar, **£1,328**. |
| **4.** Cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithfeydd mwynau | **£797**. |
| **5.** Datblygiad gwastraff | **£797**. |